

GOGLEDD CYMRU AC EWROP

BUDDSODDI MEWN DYFODOL MWY DISGLAIR I OGLEDD CYMRU

RHIFYN 4: HAF 2015

Cynhyrchwyd gan Dim Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

YN BAROD AMDANI HWB I DWF A CHYNHYRCHIAN YNG NGOGLEDD CYMRU



Mentrau Mentrus
Cynorthwyo twf busnesau a chystadleurwyd
yn y rhanbarth.

Hybu Cynhyrchiant Busnesau
Annog cynhyrchiant, datblygu sgiliau a
chynnydd cyflogwyr Gogledd Cymru.



MAE **BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** YN DOD Â RHANDDEILIAID ALLWEDDOL Y RHANBARTH YN Y SECTORAU PREIFAT A CHYHOEDDUS AT EI GILYDD, I HYBU TWF ECONOMAIDD AR DRAWS Y RHANBARTH.

Meithrin **sector busnes cryf a gwydn** yng Ngogledd Cymru



Mae Gogledd Cymru wedi sicrhau buddsoddiad gwerth dros £279m, gan gynnwys £154m o Gronfeydd Strwythurol Ewrop, ers 2007. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cyfrannu at greu hinsawdd ysgogol i fusnesau dyfu a ffynnu, a chynyddu lefelau sgiliau gweithlu'r rhanbarth i hybu cynhyrchiant ac enillion uwch.

Mae dros 27,000 o fusnesau'n gweithredu ledled gogledd Cymru, gan gynhyrchu amcangyfrif o £10 biliwn ar gyfer economi'r rhanbarth, a chyflogi miloedd o bobl ledled y rhanbarth.

Siaradwn â'r Cynghorydd Dilwyn Roberts, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, am eu cynlluniau i gynorthwyo twf busnes a chynyddu cynhyrchiant yng ngogledd Cymru.

"Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan ein busnesau presennol, buddsoddwyr newydd a busnesau cychwynnol fynediad at yr isadeiledd, yr eiddo, y cyngor a'r cyllid iawn a fydd yn golygu y gellir datblygu a chreu swyddi, yn enwedig mewn sectorau allweddol fel ynni, gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau creadigol, technoleg ddigidol a threftadaeth a thwristiaeth awyr agored.

"Mae gogledd Cymru eisoes yn gartref i rai o fawrion rhwyngwladol diwydiant. Mae Airbus, Magellan, Toyota a ConvaTec yn rhai o'r cwmnïau mawr sydd wedi dewis buddsoddi eu busnes yn y rhanbarth, ac rydym yn gweithio'n barhaus i hyrwyddo'r ardal i fuddsoddwyr newydd posibl.

"Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn ein heconomi, ac maent yn cyfrannu dros £1.6 biliwn y flwyddyn at gyfoeth y rhanbarth, gyda mwy na 2,500 o fusnesau newydd yn cael eu sefydlu yn 2013. Ein nod yw sicrhau bod cymorth wrth law i barhau â'r tueddiad hwn a chynyddu ymhellach nifer y busnesau newydd cynaliadwy ar draws y rhanbarth, yn ogystal â chynorthwyo ein busnesau presennol i ehangu, addasu ac ymateb i gyfleoedd sy'n newid.

"Mae prifysgolion a cholegau ein rhanbarth yn gweithio'n galed i gynorthwyo twf economaidd yn y sectorau allweddol, helpu busnesau i ddatblygu meysydd newydd a thyfu, a chynorthwyo pobl i ennill sgiliau a chymwysterau wedi eu teilwra i anghenion busnesau – gan gynyddu cynhyrchiant ac enillion lleol."

Mentrau Mentrus

"Mae buddsoddiad ers 2007 gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop wedi helpu mwy na 3,900 o fusnesau i dyfu, wedi cynorthwyo dros 2,100 o fusnesau i ddechrau, ac wedi arwain at greu dros 5,000 o swyddi ledled gogledd Cymru. Mae'r buddsoddiad wedi galluogi busnesau'r rhanbarth i fod yn fwy cystadleuol a chwilio am gyfleoedd i ddatblygu, yn ogystal â mabwysiadu prosesau ac arferion newydd, mwy effeithlon."

Hybu Cynhyrchiant Busnesau

"Ar draws gogledd Cymru, mae buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi helpu mwy na 38,000 o bobl i ennill y cymwysterau a'r sgiliau i lwyddo.

"Mae'r buddsoddiad hwn trwy hyfforddiant a datblygiad wedi ein helpu ni i ddatblygu a sicrhau'r gweithlu tra medrus sydd ei angen arnom yng Ngogledd Cymru. Bydd cael gweithlu medrus, addasadwy ac ymatebol nid yn unig yn cynyddu gwerth ein busnesau presennol trwy gynyddu cynhyrchiant a chyfrannu at dwf busnes, ond hefyd yn gwneud ein rhanbarth yn fwy deniadol i fuddsoddwyr."




Cynghair Meiriondd Cymru yn cynorthwyo twf technol



Plati weithgynhyrchu Toyota yng Ngogledd Cymru



Parc Busnes Gogledd Cymru yn Aberystwyth



Mae'r gweithgynhyrchwyr mannau chwarae, GL Jones, ym Methesda, wedi derbyn cymorth gan brosiect y Gronfa Fuddsoddi Leol - fe wnaeth y cymorth eu galluogi nhw i symleiddio cynhyrchu a'u helpu i wella cystadleurwydd a diogelu swyddi.

MENTRAU MENTRUS

Mae miloedd o bunnoedd wedi cael eu buddsoddi mewn amrywiaeth o gynlluniau i ysgogi a chynorthwyo twf ac ehangu, a helpu busnesau bach a chanolig i gynyddu eu cystadleurwydd yng ngogledd Cymru.

Fe wnaeth cynlluniau fel Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru, roi i fusnesau uchelgeisiol yr ychydig o gymorth ychwanegol yr oedd ei angen arnynt i symud ymlaen – ac wrth wneud hynny, mae wedi cynorthwyo 448 o fusnesau a helpu i greu dros 750 o swyddi yng ngogledd-orllewin Cymru.

Hwylusodd prosiect Parciau Busnes Strategol Gogledd Ddwyrain Cymru fynediad at gynlluniau a gwasanaethau cymorth busnes lleol a chenedlaethol, gan helpu busnesau

presennol i ehangu a busnesau newydd i sefydlu yn y ddwy ganolfan gyflogaeth allweddol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru – Ystad Ddiwydiannol Wrecsam a Pharc Busnes Glannau Dyfrdwy.

Darparodd y prosiect Olyniaeth Busnes a Chonsortia Cydweithredol gwerth £1.2 miliwn, gyngor arbenigol i berchnogion busnes a oedd yn dymuno ymddeol a throsglwyddo eu busnes i'w gweithwyr.

Mae mentrau cymdeithasol wedi elwa ar fuddsoddiad gan y cynllun Cyfenter a'r Gronfa Fuddsoddi Cymunedol; mae'r cynlluniau wedi darparu buddsoddiad ariannol ar gyfer mentrau cymdeithasol newydd a rhai sy'n datblygu, i gyflawni eu potensial fel busnesau dichonadwy yn economi Gogledd Cymru.



Lawrence Washington from Porthmadog's Purple Moose Brewery benefited from the LEAD Wales programme

HYBU CYNHYRCHIAN BUSNESAU

Mae busnesau a gweithlu'r rhanbarth wedi cael mynediad at nifer o gyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi'u hanelu at gynyddu cynhyrchiant, twf a chystadleurwydd trwy wella sgiliau gweithwyr a mynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau.

Fe wnaeth prosiect Parciau Busnes Strategol Gogledd Ddwyrain Cymru gynorthwyo cydweithrediad rhwng Prifysgol Glyndŵr, colegau lleol a dros 500 o fusnesau. Cyflwynwyd nifer o raglenni hyfforddi a datblygu, wedi'u haddasu i anghenion busnesau, i gynorthwyo 18,000 a mwy o weithwyr ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam a Pharc Busnes Glannau Dyfrdwy.

Fe wnaeth y prosiect Sgiliau'r Dyfodol, dan arweiniad

Grŵp Llandrillo Menai, helpu dros 1,700 o fusnesau i elwa ar gynhyrchiant gwell yn y gweithle. Fe wnaeth y prosiect gynnig ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu fforddiadwy, a gynorthwyodd fwy na 7,500 o weithwyr i ennill sgiliau newydd.

Derbyniodd dros 700 o fusnesau gymorth i wella eu sgiliau arweinyddiaeth o dan brosiect LEAD Cymru, a wnaeth eu galluogi nhw i weithio'n fwy effeithlon a hybu twf busnes. Mae Cynghair Meddalwedd Cymru wedi helpu mwy na 300 o fusnesau i wella eu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ymgyswrtio â thechnolegau newydd sy'n dod i'r amlwg a gweithio mewn ffyrdd newydd a mwy clyfar.



Y TRO NESAF Y BYDDWCH YN YMWELD AG IKEA....

....cymerwch gipolwg i weld a allwch ddod o hyd i'r dodrefn sy'n cael eu gwneud yma yng Ngogledd Cymru. Diolch i gontract newydd gydag IKEA, mae Westbridge Furniture Designs ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn ehangu'n gyflym.

Mae Westbridge bellach yn cyflenwi saith detholiad o gelfi i Ikea, sy'n cynnwys soffas, cadeiriau, gwelyau sofa a soffas cornel, ac mae hefyd yn cyflenwi manwerthwyr eraill fel John Lewis, M&S a Next.

Mae'r cwmni wedi agor trydydd cyfleuster gweithgynhyrchu ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy i wasanaethu'r contract pum mlynedd newydd gydag Ikea, ac mae eisoes wedi creu 220 o swyddi newydd a gweld

cynhyrchiant yn cynyddu o 100 eitem yr wythnos i fwy na 2,000. Mae'r cwmni bellach yn cyflogi cyfanswm o 960 o staff yn ei gyfleusterau yng Nglannau Dyfrdwy a Threffynnon.

Roedd Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn rhan o brosiect Parciau Busnes Strategol Gogledd-ddwyrain Cymru a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, a helpodd dros 500 o gwmnïau ar Ystadau Diwydiannol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy i ddatblygu eu gwasanaethau, ehangu a thyfu.

Helpodd y prosiect i greu 283 o swyddi, denu £7.7 miliwn o fuddsoddiad sector preifat a sefydlu 14 o fusnesau newydd.

www.deesideindustrialpark.co.uk





O WEITHWYR CAFFI I GYD-BERCHNOGION CAFFI

Pan fydd un drws yn cau, bydd un arall yn agor, fel arfer, ac ar gyfer y Caffi Florence poblogaidd ym Mharc Gwledig Loggerheads ger yr Wyddgrug, fe wnaeth newid i strwythur perchnogaeth ddiogelu 15 o swyddi.

Fe wnaeth saith o weithwyr y caffi - sydd wedi ennill gwobrau - oddi wrth y perchennog blaenorol gyda chymorth Prosiect Olyniaeth Busnes Canolfan Cydweithredol Cymru.

Mae Nicola Price-Rohan yn un o'r perchnogion a gydsefydlodd y cydweithrediad.

"Fel cwmni cydweithredol, credwn fod gennym y potensial i dyfu'r busnes trwy ddefnyddio egwyddorion y perchennog gwreiddiol. Mae'r busnes bellach wedi bod yn gweithredu fel cwmni gweithwyr cydweithredol ers bron blwyddyn.

"Fel perchnogion, gallwn gynllunio ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod Caffi Florence yn cynnig bwyd gwych a gwasanaeth gwych ym Mharc Gwledig Loggerheads am amser maith."

www.walescooperative.org

CATALYDD AR GYFER TWFF Y TRYDYDD SECTOR

Ar gyfer Adfywio Adnodd ym Mangor, roedd y gallu i gael mynediad at gymorth gan Gronfa Buddsoddi Cymunedol CGGC yn hanfodol i ddatblygu'r busnes hwn a hybir gan gymdeithas. Fe wnaeth y prosiect roi'r rhyddid iddo sianelu ei adnoddau i feithrin gallu ac isadeiledd.

Dywedodd Calvin Davies o'r cwmni, "Yn syml, ni fyddem ni, fel menter cymdeithasol elusenol, dibrofiad, yn bodoli heb y cymorth a dderbyniwyd gan y Gronfa Buddsoddi Cymunedol. Rydym wedi cynhyrchu trosiant dros £476,000 hyd yn hyn, a

oedd yn bosibl yn sgil benthyciad dechrau busnes cychwynnol o £55,000 yn unig.

"Yn ystod yr 16 mis diwethaf, rydym wedi creu 5 swydd amser llawn a 3 swydd ran-amser ar gyfer unigolion a oedd yn ddi-waith yn hirdymor yn flaenorol. Rydym hefyd wedi ailgyfeirio 189 tonnell o ddodrefn o'r llif gwastraff masnachol a 72 tonnell o declynnau domestig mawr."

www.wcva.org.uk





CEFNOGI GWELEDIGAETH TYMOR HIR



Mae Kent Persiscopes yn Llanelwy yn un o weithgynhyrchwyr systemau anelu ac arsylwi mwyaf blaenllaw'r byd ar gyfer cerbydau milwrol.

Derbyniodd y cwmni gymorth gan Gronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru i sefydlu pencadlys newydd ym Mharc Busnes Llanelwy - buddsoddiad a greodd swydd amser llawn newydd.

Darparodd Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru gymorth ariannol gwerth mwy nag £1.9 miliwn i fusnesau yng Ngogledd Cymru. Fe wnaeth y cynllun, a ariannwyd yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, helpu i greu dros 750 o swyddi newydd a diogelu dros 1,000 o swyddi yng Ngwynedd, Conwy, Ynys Môn a Sir Ddinbych.

www.lifcymru.org

KENT



Kay Laurie, Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr Plas Cadnant (pellaf ar y dde) gyda chynrychiolwyr Cynghair Meddalwedd Cymru

AP AR GYFER Y RHEINY Â DIDDORDEB MEWN GARDDIO

Yn aml, mae'r bobl sy'n ymweld â Gerddi Plas Cadnant yn Ynys Môn eisiau gwybod beth yw rhywogaeth planhigion, ond mae labeli'n amharu ar deimlad naturiol y gerddi. Roedd Gerddi Plas Cadnant eisiau datblygu ap ffonau symudol i wella profiad ymwelwyr.

Fe wnaeth Cynghair Meddalwedd Cymru gynnal prosiect gyda myfyrwyr Cyfrifiadureg Prifysgol Bangor.

Yr ateb oedd ap sy'n caniatáu i ymwelwyr sganio codau QR mewn lleoliadau allweddol i weld pa blanhigion sy'n blodeuo. Fe wnaeth y prosiect

ganiatáu i Blas Cadnant ddatblygu'r ap heb orfod gwario ar ddatblygu meddalwedd drud, a gosod pyst llechi â chodau QR wedi'u hysgythru arnynt o gwmpas y gerddi.

"Mae'r prosiect wedi ein helpu ni i gyflwyno technoleg newydd ym Mhlas Cadnant – technoleg sydd wedi gwella profiad ymwelwyr a'n galluogi ni i weithio'n fwy clyfar," meddai Kay Laurie o Erddi Plas Cadnant.

www.softwarealliancewales.com





The Tavern on The Bay

ARWEINWYR Y DYFODOL

Gan fod twristiaeth yn chwarae rôl mor allweddol yn economi Gogledd Cymru – gan gefnogi dros 80,000 o swyddi - mae darparu cyfleoedd hyfforddi yn hanfodol i fusnesau wella lefelau sgiliau a mynd i'r afael â bylchau penodol a/neu ddiffyg sgiliau, i fodloni anghenion y diwydiant.

Darparodd y prosiect Sgiliau'r Dyfodol hyfforddiant rheoli ar gyfer busnesau lletygarwch a thwristiaeth ledled y rhanbarth.

Un busnes a elwodd ar hyn oedd y dafarn gastro Tavern on The Bay yn Ynys Môn.

Dywedodd Carol Peers, Rheolwr Adnoddau Dynol: "Nid yw'r bwyty'n ddim heb y rheolwyr o ansawdd sydd eu hangen i arwain y tîm, ac mae'r prosiect Dyfodol wedi ein helpu i ennill sgiliau newydd a gwella cynhyrchiant.

"Mae'r hyfforddiant a dderbyniodd y ddau Reolwr Bwyty yn gweddu i'r gwasanaeth 5 seren rydym yn ymdrechu i'w gyflawni."

www.llandrillo.ac.uk



ARWAIN Â HYDER

Mae rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth chwyldroadol sy'n para 10 mis, a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer arweinwyr a rheolwyr sy'n berchnogion busnesau bach a chanolig, wedi rhoi hwb i un o ddarparwyr diogelwch radiolegol blaenllaw'r DU.

Derbyniodd Matom yng Nghonwy gymorth oddi wrth raglen LEAD i ddatblygu a gwella eu sgiliau arweinyddiaeth.

Dywedodd y perchennog, Matt Tuck, "Mae perchnogion

busnesau yn dueddol o sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol, ond yn aml yn anghofio am eu hanghenion addysg ac arweinyddiaeth eu hunain. Fe wnaeth LEAD fy helpu hefyd i amlygu beth yr oeddwn yn ei wneud yn iawn, a chadarnhau hynny."

Arweiniwyd y rhaglen gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor.

www.leadwales.co.uk



EFFAITH BUDDSODDIAD AR GAMERA


Mae Tîm Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru wedi cyhoeddi cyfres o fideos o Ewrop a Gogledd Cymru hefyd sy'n edrych ar effeithiau Cyllid Strwythurol Ewropeaidd 2007-13 ar fusnesau, cymunedau a phobl Gogledd Cymru.




TAITH I WAITH
www.bit.ly/nwconnect



**Y GRONFA
FUDDSODDI LEOL**
www.bit.ly/lifnwww



LLWYDDO'N LLEOL
www.bit.ly/llwyddolleol



**PROSIECTAU
ADFYWIO
FFISEGOL**
www.bit.ly/PhysReg



**CANOLFAN
RHAGORIAETH ERYRI**
www.bit.ly/fideorhag

Paratowyd y llyfryn hwn ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan Dîm Ewropeaidd Arbenigol Cymru, sydd wedi'i leoli yn y 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru. Mae'r Tîm Ewropeaidd Arbenigol yn gweithio tuag at sicrhau bod y rhanbarth yn cael y budd mwyaf o gyllid Ewropeaidd trwy ddarparu ystod o gymorth i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd, a sicrhau y caiff ei weithredu'n effeithiol. Mae Tîmau Ewropeaidd Arbenigol yn bodoli ar draws Cymru ac mewn sectorau gwahanol, o awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

www.tinyurl.com/EuropeNorthWales

